# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 18 Mehefin 2019

Amser: 09.29 - 10.33

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AC (Cadeirydd)<br>Andrew RT Davies AC<br>Helen Mary Jones AC<br>David J Rowlands AC |
| Comisiynydd Safonau: | Syr Roderick Evans QC (Comisiynydd Safonau) |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd David Rowlands AC a etholwyd yn Aelod o'r Pwyllgor ar 12 Mehefin.

## 2 Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2019-20

2.1 Datganodd Andrew RT Davies AC fuddiant gan ei fod yn cyflogi ei wraig.

2.2 Trafododd yr Aelodau y Penderfyniad ar Gyflogau'r Aelodau a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Bwrdd Taliadau ynghylch cyflogi aelodau'r teulu.

## 3 Trafod adroddiadau gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.1(i)

3.1 Trafododd yr Aelodau Adroddiad y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i) a chytunwyd i drafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf.

## 4 Cod Ymddygiad - Adolygiad

4.1 Trafododd a chytunodd yr Aelodau y newidiadau a awgrymwyd.

4.2 Bydd y Clerc yn paratoi adroddiad i'r Aelodau ei ystyried yn adlewyrchu'r diwygiadau a awgrymwyd i'r Cod Ymddygiad.